# Ein Cymoedd Ein Dyfodol

# Our Valleys Our Future

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Thema 1: Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau sydd eu hangen i'w gwneud nhw

### Erbyn 2021, byddwn ni wedi:

helpu **7,000** o bobl i ddod o hyd i waith

cefnogi busnesau i dyfu a darparu **swyddi diogel sy'n talu'n dda**

gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y **sgiliau** priodol i gael swydd dda

### Erbyn Tachwedd 2019, byddwn ni wedi:

- dyrannu £25 miliwn i greu saith canolfan strategol yn canolbwyntio ar swyddi, sgiliau a chefnogi entrepreneuriaid
- annog entrepreneuriaid gyda phethau fel Canolfan Entrepreneuriaeth y Cymoedd ac ymgyrch i ddathlu llwyddiant entrepreneuraidd
- pennu cyfleoedd i wneud y mwyaf o droi'r A465 yn ffordd ddeuol

## Thema 2: Gwell gwasanaethau cyhoeddus

### Erbyn 2021, byddwn ni wedi:

cefnogi gwasanaethau i **weithio gyda'i gilydd** a gyda chymunedau a sefydliadau

cefnogi mwy o bobl i fyw **bywyd iach**

gwell **trafnidiaeth gyhoeddus** sy'n fwy cydgysylltiedig a fforddiadwy

gwella **deilliannau addysg** i blant

### Erbyn Tachwedd 2019, byddwn ni wedi:

- cefnogi canolfannau cymunedol newydd, ynghyd â rhai sy'n bodoli eisoes, i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen ar bobl drwy:
  - rannu ffynonellau cyllido ac annog busnesau lleol i gefnogi canolfannau
  - creu rhwydwaith ar-lein o ganolfannau
  - pennu a llenwi bylchau o ran hyfforddiant
- cynnal cynllun peilot i ddarparu parthau WiFi cymunedol
- adolygu rhwydweithiau bws i wella'r gwasanaethau

## Thema 3: Fy nghymuned leol

### Erbyn 2021, byddwn ni wedi:

creu **Parc Rhanbarthol y Cymoedd** i helpu cymunedau i ddathlu a gwneud y mwyaf o gyfoeth naturiol a'r threftadaeth

cynyddu **twristiaeth** yn y Cymoedd

SHOP

cysylltu **canol trefi** gyda mannau gwyrdd

### Erbyn Tachwedd 2019, byddwn ni wedi:

- creu Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda chymorth cyllid gwerth £7m, er mwyn:
  - darparu hyd at ddeg safle Porth Darganfod
  - datblygu llwybrau darganfod
  - cynyddu hamdden awyr agored
  - annog cymunedau i ddatblygu eu tirluniau lleol

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG36569